**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**28 MEDI 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint o bell a gynhaliwyd ddydd Llun, 28 Medi 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Haydn Bateman, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Kevin Rush, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Billy Mullin

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg), y Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer y Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad), y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Cyllid), y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Dyluniad Sefydliadol, y Rheolwr Cyllid a’r Prif Gyfrifydd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a’r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**01. PENODI CADEIRYDD**

Bu i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa’r Pwyllgor y penderfynodd y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol mai'r grŵp Ceidwadol ddylai enwebu Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd y grŵp wedi enwebu’r Cynghorydd Clive Carver.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau’r Cynghorydd Clive Carver fel Cadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Carver weddill y cyfarfod)

**02. PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. Enwebwyd y Cynghorydd Geoff Collett gan y Cynghorydd Paul Shotton, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin. Ni chafwyd enwebiadau eraill. Ar ôl cynnal pleidlais, cadarnhawyd yr enwebiad.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Geoff Collett yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor.

**03.** **DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Paul Shotton gysylltiad personol fel aelod bwrdd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**04.** **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020. Cynigiodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin gymeradwyaeth i'r cofnodion ac eiliwyd hyn yn briodol gan y Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**05.** **BRIFF SEFYLLFA FRYS**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar lafar ar y sefyllfa ddiweddaraf yng Nghymru a’r risgiau a’r goblygiadau i Sir y Fflint a pharhad busnes a gwasanaeth.

Fe eglurodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa bresennol yn un ansefydlog. Byddai o a’r Uwch Swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddariad byr ar lafar ar ddechrau cyfarfodydd. Dywedodd hefyd y gallai fod yn angenrheidiol ailgyflwyno’r briffiadau sefyllfaol a gafodd eu rhoi i Aelodau yn ystod chwe mis cyntaf yr argyfwng.

Ymatebodd Swyddogion i nifer o bryderon ac ymholiadau gan Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts, pe bai angen, y byddai sesiynau briffio Aelodau yn cael eu cynnal pe bai'r sefyllfa'n dirywio ac ymrwymodd hefyd i gynnal cyfarfod Arweinwyr Grŵp. Gofynnodd am gefnogaeth yr Aelodau i annog eu cymunedau lleol i ddilyn canllawiau diweddaraf i gadw’n ddiogel rhag Covid-19.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r diweddariad a diolch i Dîm y Prif Weithredwr a’r Prif Swyddog am y gwaith yr oeddent yn ei wneud wrth gynllunio ar gyfer effaith y Coronafeirws (COVID-19) yn Sir y Fflint.

**06.** **CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR**

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod strwythur y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2020. Yn y Cyfarfod Blynyddol ar 9 Medi, penodwyd Cadeiryddion i'r pum pwyllgor o fewn y strwythur newydd.

Nodwyd cylch gorchwyl priodol pob un o'r Pwyllgorau a'r prif gyfranwyr tuag atynt yn Atodiad 1 yr adroddiad. Tynnodd y Swyddog sylw at gylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a dywedodd fod y rhain yn aros yr un fath. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor wedi cadw Cynllunio

Brys o fewn ei swyddogaethau. Roedd hyn yn arbennig o briodol o ystyried y pandemig parhaus a'i effaith ar gyllid y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin gymeradwyo'r argymhellion ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn derbyn ei gylch gorchwyl fel y cytunwyd gan y Cyngor ac fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 07. STRATEGAETH ADFERIAD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i ddarparu goruchwyliaeth ar gyfer cynllunio adferiad ar gyfer portffolio(s) y Pwyllgor ac ailadeiladu'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor 2020/21 gyda chanolbwynt penodol ar gynllunio adferiad.

Arweiniodd y Prif Weithredwr gyflwyniad cynhwysfawr a oedd yn ymdrin â'r meysydd allweddol canlynol ar y Strategaeth Adferiad:

- pwrpas
- argymhellion
- amcanion y strategaeth adferiad
- cronoleg leol
- amcanion yr ymateb
- rhai cyflawniadau lleol wrth ymateb
- amcanion adferiad - trefn
- amcanion adferiad - gwasanaeth
- gweithgareddau adferiad
- Cynllun a pherfformiad y Cyngor
- Llywodraethu adferiad yn ddemocrataidd
- amcanion adferiad

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan y Cynghorydd Richard Jones ynghylch Cynllun y Cyngor a chadw at y gyllideb, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd nad oedd unrhyw beth wedi'i adael yn y Cynllun oherwydd y Strategaeth Adferiad, a gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried meysydd a oedd fwyaf perthnasol yn y 6 i 12 mis nesaf.

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndir gan wneud cyflwyniad ar Ddadansoddiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol a oedd yn cwmpasu'r pwyntiau allweddol canlynol:

- tueddiad risg agored a chaeedig
- dadansoddiad o statws y risg gyfredol
- dadansoddiad o statws tueddiad y risg

Gwahoddodd y Prif Weithredwr y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Dylunio Sefydliad, a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) i

gyflwyno'r gofrestr risg a chamau lliniaru risg ar gyfer eu portffolios gwasanaeth (Cyllid, y Gweithlu a Llywodraethu).

Yn ystod ei gyflwyniad, ymatebodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i'r cwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Patrick Heesom. Roedd hyn yn ymwneud â fforddiadwyedd gorfod benthyca yn gynharach i ariannu'r rhaglen gyfalaf oherwydd bod y lefel o gronfeydd wrth gefn yn is. Teimlai fod hyn yn risg. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod cronfeydd wrth gefn yn gadarnhaol a bod y rhaglen gyfalaf yn gwario llai na'r swm a gyllidebwyd. Mewn ymateb i'r cwestiwn pellach a godwyd gan y Cynghorydd Heesom, cadarnhaodd y Swyddog nad oedd unrhyw ofyniad benthyca ychwanegol ar gyfer y flwyddyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Gofrestr, gyda dadansoddiad cyd-destunol, yn cael ei rhoi gerbron y Pwyllgor bob mis i'w hadolygu.

Yn ogystal, rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ymateb manwl i'r sylwadau a'r cwestiynau pellach a godwyd gan y Cynghorydd Richard Jones ynghylch y risgiau i gronfeydd wrth gefn (CF06, CF07) a'r cynnydd mewn costau gan gyflenwyr am nwyddau a gwasanaethau oherwydd cyflenwad a galw, a strategaethau adfer busnes (CF10).

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiadau penodol ar rai o'r risgiau cyllid yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos i'w hystyried yn fanwl.

Gan gyfeirio at y risgiau a nodwyd o dan y pennawd Gweithlu, gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones a oedd y cynnig i staff addysgu ym mhob ysgol gael brechiadau ffliw wedi'i ariannu gan y Cyngor yn cael ei ddatblygu. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Dylunio Sefydliad fod y Cyngor wedi archebu 4,500 o frechiadau a chynghorodd fod athrawon ysgol a gweithwyr allweddol wedi'u cynnwys yn y rhaglen a bod y Tîm Iechyd Galwedigaethol yn paratoi i ddarparu'r cynllun. Aeth yn ei blaen i ddweud bod nifer o ddulliau cyfathrebu wedi'u darparu i annog y gweithlu i dderbyn y cynnig.

Roedd y set lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer adferiad a argymhellir i'w tynnu o Gynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2020/21 a'u cynnwys yn y Strategaeth Adferiad hefyd ynghlwm, ynghyd â'r set lawn o dargedau dangosyddion perfformiad diwygiedig ar gyfer 2020/21.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton gymeradwyo'r argymhellion ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn y cyflwyniad, gan ddiolch i'r swyddogion; a

(b) Bod y Pwyllgor yn rhoi tasg i'r Swyddogion ail-lunio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor ar gyfer 2020/21, gyda chynllunio adferiad yn ganolbwynt.

## 08. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 4)

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad a oedd yn cwmpasu’r materion allweddol canlynol:

- Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21
- Monitro Cyllideb 2020/21 – Rhagdybiaethau
- Treth y Cyngor a Chynllun Lleihau Treth y Cyngor
- Y diweddaraf ar hawliadau – costau ychwanegol
- Y diweddaraf ar hawliadau – colled incwm

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol gopi o'r adroddiad ar Fonitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Mis 4) a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Medi 2020 ac a atodwyd i'r adroddiad.

Cwestiynodd y Cynghorydd Richard Jones yr wybodaeth a ddarparwyd o dan amrywiannau sylweddol y mis hwn a chyfeiriodd at y wybodaeth yn Nhabl 1 yr adroddiad o dan Gwasanaethau Stryd a Chludiant. Yn ei ymateb eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod dadansoddiad llawn o'r ffigurau a ddarparwyd wedi'i nodi yn atodiad 1 yr adroddiad. Awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylid ychwanegu colofn ychwanegol at Dabl 1 i adrodd ar lefel incwm - dros/o dan (gorwariant a thanwariant mewn blwyddyn). Yn ei ymateb cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i roi ystyriaeth bellach i'r awgrym ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

Gan gyfeirio at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Jones, nododd y Prif Weithredwr enghraifft o sut roedd y Cyngor wrthi'n rheoli risg yn y maes Gwasanaethau Stryd a Chludiant. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru i adfer colled incwm lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae’n debyg na fydd pob hawliad yn gymwys.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Richard Jones a'i eilio'n briodol.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried yr Adroddiad Monitor Cyllideb Refeniw 2020/21 (mis 4), cadarnhaodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw faterion penodol y mae’n dymuno adrodd i’r Cabinet.

## 09. MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2020/21 (MIS 4)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol gopi o'r adroddiad ar Fonitro Rhaglen Gyfalaf 2020/21 (Mis 4) a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Medi 2020 ac a atodwyd i'r adroddiad. Dywedodd fod yr adroddiad yn crynhoi’r newidiadau a wnaed i’r Rhaglen Gyfalaf 2020/21 ers ei gosod ym mis Ionawr 2020 hyd at ddiwedd Mis 4 (Gorffennaf 2020), ynghyd â’r gwariant hyd yma a’r canlyniadau amcanol. Cyfeiriodd at y prif ystyriaethau fel y manylir yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff Safonol yn y rhaglen gyfalaf. Fodd bynnag,

roedd hi'n obeithiol y byddai cymorth ariannol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a dywedodd fod dau gynnig wedi'u cyflwyno.

Ymatebodd y Swyddog Cyllid i'r sylwadau a'r cwestiynau pellach a godwyd gan y Cynghorydd Richard Jones ynghylch benthyca darbodus a dwyn arian cyfalaf ymlaen. Dywedodd y Cynghorydd Jones, fel rhan o'r polisi cyllid, nad oedd y Cyngor yn dwyn arian cyfalaf ymlaen nes bod cynlluniau wedi'u hymrwymo o dan gontract. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod, o ystyried yr amgylchiadau presennol, efallai nad yw hyn yn wir am bob cais a ddygir ymlaen y flwyddyn ariannol hon.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Richard Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried yr Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2020/21 (mis 4), cadarnhaodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno adrodd i'r Cabinet.

## 10. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.45am)

..............................
**Y Cadeirydd**